**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/03246/23

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee

16 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr yn amgáu deiseb P-06-1389 ynghylch cyflwyno terfyn o 30mya ar gefnffordd yr A487 trwy bentrefi Eglwys Fach a Ffwrnais gan Catherine Ruth Stevenson.

Byddwch yn ymwybodol o'r fenter sydd wedi arwain at gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya yng Nghymru. Roedd y broses genedlaethol o gyflwyno 20mya yn gyfyngedig i ffyrdd a arferai fod yn 30mya. Ar gyfer pob ffordd y tu allan i hyn, fel yr A487 yn Eglwys-fach, mae'r broses ar gyfer newid cyflymder yn dibynnu ar ddiweddaru'r canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru (SLSLiW), i adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyno terfynau cyflymder 20mya yn genedlaethol ac i gyflawni'r uchelgeisiau a amlygwyd yn Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021. Mae cyhoeddi'r canllawiau SLSLiW newydd yn cael ei gydlynu i sicrhau cyd-fynd â'r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd newydd. Efallai y bydd y canllawiau newydd yn gweld newid yn y meini prawf ar gyfer terfynau cyflymder is yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws ei Rhwydwaith Cefnffyrdd yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau gan gynnwys y rhan hon o'r A487.

Efallai y bydd y deisebydd/deisebwyr am wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad ar Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd newydd Llywodraeth Cymru ar-lein yn strategaeth diogelwch ffyrdd | GOV. CYMRU sydd ar gael tan 31 Ionawr 2024.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.